# Arweiniad atodol:
# Arolygu chweched dosbarth ysgolion

## Chwefror 2025

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio dysgwyr
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- trefniadau trochi yn y Gymraeg mewn awdurdodau lleol
- gwasanaethau gwaith ieuenctid
- addysg gychwynnol athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/cyhoeddiad penodol.**

| |
|---|
| **Beth yw'r diben?**<br><br>Mae hwn yn rhoi mwy o arweiniad i arolygwyr ei ddefnyddio ochr yn ochr ag arweiniad y sector ar gyfer arolygu<br><br>**Ar gyfer pwy mae wedi'i fwriadu?**<br><br>Ysgolion a gynhelir<br><br>**Pryd y dylid dechrau defnyddio'r arweiniad?**<br><br>Chwefror 2025 |

## Cynnwys Tudalen


| | |
|---|---|
| **Arweiniad atodol** | **1** |
| **Cyflwyniad** | **2** |
| **Arolygu chweched dosbarth** | **2** |
| **Maes arolygu 1 (addysgu a dysgu)** | **3** |
| **Maes arolygu 2 (lles, gofal, cymorth ac arweiniad)** | **3** |
| **Maes arolygu 3 (arwain a gwella)** | **4** |

## Arweiniad atodol

Dogfennau allweddol Estyn sy'n arwain gweithgarwch arolygu yw'r llawlyfrau arweiniad arolygu ar gyfer pob sector. Fodd bynnag, rydym hefyd yn llunio arweiniad atodol i helpu arolygwyr i ystyried agweddau penodol ar addysg a hyfforddiant ymhellach.

Mae'r dogfennau arweiniad atodol yn amlinellu egwyddorion, ystyriaethau ac adnoddau allweddol ar gyfer arolygwyr. Maent yn ymwneud â phob sector sy'n cael ei arolygu gan Estyn, oni bai eu bod yn datgan eu bod ar gyfer sector penodol. Maent yn ehangu ar rai agweddau ar addysg / hyfforddiant (e.e. arolygu llythrennedd) neu ar ffyrdd o gynnal arolygiadau (e.e. defnyddio teithiau dysgu) neu drefniadau arolygu penodol (e.e. arweiniad ar arolygu ysgolion eglwys).

Nid nod y dogfennau arweiniad atodol yw bod yn gynhwysfawr. Nid yw'n ofynnol i arolygwyr weithio trwyddynt yn drylwyr wrth ymdrin ag unrhyw agwedd benodol ar arolygiad. Fodd bynnag, gallent fod yn ddefnyddiol i arolygwyr wrth ymateb i gwestiynau penodol sy'n dod i'r amlwg yn ystod arolygiadau neu pan fyddant yn dymuno myfyrio neu ymchwilio ymhellach.

Gallai'r dogfennau arweiniad atodol helpu darparwyr i ennill dealltwriaeth o drefniadau arolygu Estyn. Hefyd, gallant fod yn fuddiol i ddarparwyr wrth werthuso agweddau penodol ar eu darpariaeth eu hunain.

Rydym yn disgwyl i'n harolygwyr weithio yn unol â nifer o egwyddorion allweddol. Byddant:

- yn defnyddio ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y disgybl at unrhyw weithgarwch neu ymgysylltiad
- bob amser yn canolbwyntio'n gryf ar ansawdd ac effeithiolrwydd addysgu a dysgu
- yn ystyried cyd-destun penodol y darparwr ac yn addasu eu dulliau yn unol â hynny
- yn defnyddio ystod o fethodolegau a dulliau teilwredig i werthuso ehangder gwaith y darparwr yn drylwyr ac yn deg
- yn mabwysiadu dull adeiladol sy'n gwneud y rhyngweithio â'r darparwr yn brofiad dysgu proffesiynol ar gyfer eu staff

Yn ogystal, bydd ein harolygwyr:

- yn sicrhau bod yr holl weithgarwch ac ymgysylltiad yn ymatebol i anghenion pob un o'r disgyblion
- yn sicrhau bod gwerthusiadau yn gadarn, yn ddibynadwy, yn ddilys ac wedi'u seilio ar dystiolaeth uniongyrchol
- yn sicrhau cyn lleied o ofynion ag y bo modd ar gyfer dogfennaeth a pharatoi gan y darparwr
- yn caffael safbwynt disgyblion a rhanddeiliaid eraill
- yn cymhwyso egwyddor cydraddoldeb ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg i'n holl weithgarwch

Mewn arolygiadau craidd yn benodol, bydd ein harolygwyr:

- yn cynnwys y darparwr yn llawn yn y broses arolygu, yn cynnwys y cyfle i'r darparwr ddewis enwebai (dylid sicrhau mai'r pennaeth yw'r enwebai, fel arfer)
- yn rhoi ystyriaeth addas i flaenoriaethau gwella a ddewiswyd gan y darparwr, yn ogystal â meysydd allweddol eraill a nodwyd gan y tîm arolygu
- yn cynnwys arolygwyr cymheiriaid yn y broses arolygu

## Cyflwyniad

Mae chweched dosbarth mewn tua 70% o ysgolion uwchradd ac ysgolion pob oed yng Nghymru. Mae tua 40% o ddysgwyr sy'n parhau mewn addysg amser llawn yn y sector ôl-16 yn mynychu chweched dosbarth, tra bod tua 60% o ddysgwyr yn mynychu coleg addysg bellach. O dan y trefniadau presennol, caiff dosbarthiadau chweched eu harolygu yn rhan o'r arolygiad ysgol gyfan.

Bydd yr arolygydd cofnodol (AC) yn defnyddio aelodau o'r tîm arolygu i gymryd cyfrifoldeb am werthuso darpariaeth chweched dosbarth.

Yn yr adroddiad arolygu, bydd adran benodol fel arfer am ddysgu disgyblion chweched dosbarth a'u hagweddau at ddysgu ym maes arolygu 1 (addysgu a dysgu). Adroddir ar agweddau eraill, fel addysgu, lles ac arweinyddiaeth yn benodol 'trwy eithriad', h.y. dim ond ble mae cryfder neu ddiffyg nodedig.

Gallai fod yn fuddiol darllen yr adroddiadau thematig canlynol ar y cyd â'r arweiniad hwn:

Adolygiad o'r cwricwlwm 16-19 presennol yng Nghymru

Partneriaethau ôl-16: Cynllunio a darpariaeth ar y cyd rhwng ysgolion, a rhwng ysgolion a cholegau

## Arolygu chweched dosbarth ysgolion

Rydym yn arolygu chweched dosbarth ysgolion trwy ddefnyddio'r un mathau o weithgarwch arolygu a ddefnyddir ar gyfer gweddill yr ysgol. Bydd arolygwyr:

- yn arsylwi gwersi chweched dosbarth, naill ai fel sesiwn arsylwi gwers 'lawn' neu fel rhan o daith ddysgu[1]
- yn cyfarfod â disgyblion chweched dosbarth, yn anffurfiol o gwmpas yr ysgol ac fel rhan o gyfarfodydd wedi'u trefnu
- yn cyfarfod â phennaeth y chweched dosbarth, naill ai'n unigol neu fel rhan o grŵp bach o arweinwyr canol
- yn craffu ar unrhyw ddogfennaeth sy'n berthnasol i'r chweched dosbarth, er enghraifft cynlluniau gwella neu adroddiadau hunanwerthuso

### Data perfformiad

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu data wedi'i wirio yn genedlaethol yn gysylltiedig â deilliannau ôl-16. Bydd arolygwyr yn trafod y data hwn gydag arweinwyr ysgolion. Dylai arolygwyr ystyried unrhyw ddata mewnol y mae'r ysgol yn ei ddarparu ynghylch

[1] Gweler yr Arweiniad atodol: Arsylwadau o wersi a theithiau dysgu

deilliannau chweched dosbarth, hefyd. Dylai arolygwyr ganolbwyntio ar sut mae'r ysgol yn defnyddio ac yn triongli'r data hwn i hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella.

## Maes arolygu 1 (addysgu a dysgu)

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae disgyblion chweched dosbarth:

- yn dysgu ac yn gwneud cynnydd
- yn datblygu eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth
- yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu

Dylent hefyd ystyried pa mor dda y mae **addysgu** yn helpu disgyblion chweched dosbarth i gyflawni hyn, er y dylent ond adrodd yn benodol ar addysgu yn y chweched dosbarth os yw gryn dipyn yn gryfach neu'n llai effeithiol nag ar draws gweddill yr ysgol.

Wrth werthuso'r **cwricwlwm** yn y chweched dosbarth, dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae'r ysgol:

- yn darparu ystod addas o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol fel ei gilydd ar gyfer disgyblion
- yn cynllunio'i chwricwlwm i uchafu nifer y disgyblion sy'n gallu dilyn y cyrsiau o'u dewis
- yn cydweithio â phartneriaid allanol fel ysgolion eraill a cholegau lleol i ymestyn y cynnig cwricwlwm sydd ar gael i'w disgyblion

## Maes arolygu 2 (lles, gofal, cymorth ac arweiniad)

Wrth ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn monitro ac yn cefnogi lles disgyblion a pha mor llwyddiannus y mae arweinwyr wedi creu diwylliant o ddiogelu, dylid ystyried tystiolaeth chweched dosbarth ochr yn ochr â thystiolaeth o weddill yr ysgol.

Yn ogystal, dylai arolygwyr ystyried y cwestiynau penodol hyn ynglŷn â'r chweched dosbarth:

- I ba raddau y caiff disgyblion chweched dosbarth eu hannog i ymgymryd â rolau arwain, bod yn fodelau rôl ar gyfer disgyblion eraill a datblygu medrau arwain (er enghraifft, trwy fentora disgyblion iau, ymgymryd â rôl disgybl-lywodraethwyr cyswllt neu gynnal gweithgareddau allgyrsiol)?
- A yw'r ysgol yn rhoi gwybodaeth gyfoes ac arweiniad personol i ddisgyblion chweched dosbarth am eu hopsiynau ynglŷn â chyflogaeth, addysg a hyfforddiant?
- I ba raddau y mae'r ysgol yn gweithio gyda phartneriaid allanol, fel prifysgolion neu gyflogwyr lleol, i godi dyheadau disgyblion chweched dosbarth a sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'r opsiynau sy'n agored iddynt ar ôl yr ysgol?

## Maes arolygu 3 (arwain a gwella)

Wrth ystyried yr effaith gyffredinol a gaiff arweinyddiaeth ar gyflawniad a lles disgyblion, dylid ystyried tystiolaeth chweched dosbarth ochr yn ochr â thystiolaeth o weddill yr ysgol.

Yn ogystal, dylai arolygwyr ystyried y cwestiynau penodol hyn ynglŷn â'r chweched dosbarth:

- A yw arweinwyr a llywodraethwyr yn monitro gwariant chweched dosbarth yn ofalus i sicrhau ei fod yn gost effeithiol?
- A ydynt yn sicrhau cydbwysedd addas rhwng diwallu anghenion disgyblion unigol ac yn sicrhau bod y chweched dosbarth yn hyfyw yn ariannol?
- A oes gan yr ysgol drefniadau cadarn ar waith i sicrhau ansawdd unrhyw ddarpariaeth a gynigir mewn partneriaeth â darparwyr eraill?